Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Swydd ar y Bwrdd

## Aelod o fwrdd

**Dyddiad cau:** 12pm, 29 Hydref 2025


Ymholiadau

www.chcymru.org.uk

recruitment@chcymru.org.uk



Cofrestrwyd dan y Ddeddf Cwmnïau: 1985

Rhif Cofrestru: 2380564

Rhif Cofrestru Elusen: 1128527

## Am CHC

### Cartrefi Cymunedol Cymru yw llais cymdeithasau tai yng Nghymru.

Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yw corff aelodaeth cymdeithasau tai nid-er-elw a sefydliadau cymunedol cydfuddiannol yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli 30 corff nid-er-elw sy'n darparu tai cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig ar draws y wlad. Mae ein haelodau yn darparu cartrefi ar gyfer dros 10% o boblogaeth Cymru a maent yn ymroddedig i gyflenwi cartrefi fforddiadwy ansawdd uchel, mynd i'r afael â thlodi a gwella bywydau.

Darllenwch fwy amdanom yma.

## Ein gwerthoedd

### Fel sefydliad rydym yn ymroddedig i fod yn gyflogwr rhagorol.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn gorff gweithio o bell, gan roi'r rhyddid i staff i gyflawni eu swyddi pryd a lle maent yn gweithio orau ar sail dydd i ddydd.

Rydym yn dod ynghyd fel tîm staff neu mewn grwpiau llai o leiaf unwaith bob chwech wythnos, yng Nghaerdydd fel arfer, i gynnal pob cysylltiad pwysig.

Mae ein diwylliant a gwerthoedd yn bwysig i ni a rydym yn falch i gael tîm staff sydd nid yn unig yn ymroddedig i'n cenhadaeth ond hefyd yn angerddol am y gwaith sydd ei angen i sicrhau cynnydd. Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu hyn.

## Am y rôl

### Ydych chi yn ... Meddwl yn wahanol? Meddwl yn greadigol? Meddwl am y dyfodol?

### Eisiau gwneud gwahaniaeth? YMUNWCH Â'N BWRDD!

Rydym yn chwilio am aelodau newydd o'r Bwrdd sydd â'r sgiliau, yr egni a'r brwdfrydedd i helpu'r Bwrdd i gynorthwyo cymdeithasau tai i wynebu heriau ond hefyd i sicrhau bod CHC yn sefydliad cryf, cynaliadwy a gwydn yn ariannol sydd ar flaen y gad o ran polisi cyhoeddus a dylanwadu yng Nghymru.

# Prif Bwrpas Bwrdd CHC

Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod CHC yn sefydliad cynrychioliadol effeithiol a llwyddiannus drwy:

- Llunio hunaniaeth a chwmpas busnes sy'n ychwanegu gwerth
- Creu gweledigaeth glir, uchelgeisiol ac ymestynnol ar gyfer CHC a'r sector
- Herio a chefnogi'r Tîm Arweinyddiaeth Uwch i gyflawni allbynnau a chanlyniadau wedi'u diffinio'n dda
- Diffinio archwaeth am risg a rheoli risgiau'n briodol
- Sicrhau bod strwythurau a phrosesau llywodraethu yn gweithredu'n effeithiol
- Sicrhau iechyd ariannol parhaus y sefydliad

Fel Aelod o'r Bwrdd, byddwch yn gweithio mewn tîm sy'n penderfynu cyfeiriad strategol Cartrefi Cymunedol Cymru, sy'n cynnwys gosod a monitro'r cynllun cyflawni blynyddol. Disgwylir i chi:

- Paratoi, mynychu a chymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd bwrdd a strategaeth (a gynhelir fel arfer yng Nghaerdydd). Mae cylchred ein bwrdd ynghlwm wrth y proffil rôl hwn.
- Cael dull colegol o weithio gyda'r bwrdd a rhannu cyfrifoldeb am benderfyniadau a wneir.
- Trin gwybodaeth a thrafodaethau'r Bwrdd yn gyfrinachol nes cael gwybod i'r gwrthwyneb.

## Beth ydym ni'n chwilio amdano?

Rydym yn annog ceisiadau gan staff sy'n gweithio islaw lefel cyfarwyddwr i ddod â phrofiadau a safbwyntiau newydd i'r Bwrdd. Nid yw profiad blaenorol ar y Bwrdd yn hanfodol ar gyfer y swydd hon a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cefnogaeth i'w helpu yn y rôl hon. Rydym hefyd yn chwilio am Aelodau Bwrdd presennol HA i wneud cais. Nod ceisio ymgeiswyr o'r ddau faes hyn yw sicrhau bod gennym gynrychiolaeth amrywiol ar ein Bwrdd.

Byddwch yn gyfathrebwr da ac yn brofiadol o weithio mewn tîm. Byddwch yn greadigol yn eich dull a byddwch am chwarae rhan wrth helpu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y disgwyliad i gyfrannu'n gadarnhaol yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn cael ei gyflawni trwy ddangos sgiliau dadansoddi a dylanwadu cryf, a'ch hyder wrth ofyn cwestiynau a bod yn fodlon ar yr atebion a roddir.

## Manyleb Person (di-gyflog)

Er mwyn cryfhau ein bwrdd, rydym yn chwilio am y sgiliau a'r profiad canlynol:

- Profiad o eistedd ar Fwrdd HA (Nid yw profiad blaenorol o fwrdd yn hanfodol ar gyfer y swydd hon a rhoddir cefnogaeth i'r ymgeisydd llwyddiannus i'w helpu yn y rôl hon)
- Profiad o weithio mewn amgylchedd llywodraethu a risg

## Sgiliau a Chymwyseddau

Byddwch yn dangos gradd uchel o broffesiynoldeb, didueddrwydd, uniondeb a gwrthrychedd.

Mae yna ystod o sgiliau a chymwyseddau y mae'n rhaid i aelodau ein Bwrdd eu dangos. Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, rydym yn disgwyl i bob aelod o'r Bwrdd allu dangos gallu yn y meysydd hyn.

- **Sector** – Profiad neu wybodaeth am y sector y mae CHC yn gweithredu ynddo.
- **Technegol** – Sgiliau a gwybodaeth arbenigol i gynorthwyo agweddau parhaus rôl y bwrdd.
- **Llywodraethu** – Profiad, gwybodaeth, neu ddealltwriaeth o drefniadau llywodraethu (o safbwynt Bwrdd neu aelod o staff sy'n adrodd i'r Bwrdd).
- **Ymddygiadol** – Y priodoleddau a'r cymwyseddau sy'n galluogi'r cyfarwyddwr unigol i ddefnyddio ei wybodaeth a'i sgiliau i weithredu'n dda fel aelod o dîm ac i ryngweithio â rhanddeiliaid allweddol.

## Ymrwymiadau

- Cyfarfodydd: Mae o leiaf 6 chyfarfod bwrdd y flwyddyn gyda phob cyfarfod yn para hyd at ddwy awr. Gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.
- Paratoi: Mae'r rôl yn cynnwys deall a dadansoddi papurau, disgwylir i'r paratoi hwn gymryd tua hanner diwrnod.
- Cyfranogiad: Rydym yn chwilio am rywun sy'n awyddus i archwilio, gofyn cwestiynau a chymryd rhan fawr. Mae'n anodd nodi nifer penodol o ddyddiau ar gyfer y rôl, ond mae angen rhywun arnom sydd wedi ymrwymo i wneud effaith ystyrlon.

## Cyfnod y penodiad

Bydd y tymor yn rhedeg am 3 blynedd gyda chyfle i stand am 3 blynedd pellach.

## Treuliau

Gall aelodau bwrdd hawlio am ad-dalu costau teithio a chostau eraill sy’n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau’r bwrdd.

## Sut i wneud cais

Mae CHC yn ymroddedig i feithrin amgylchedd gwaith cynhwysol ac amrywiol. Rydym yn cydnabod y cyfraniad unigryw y gall pob ymgeisydd posibl ei wneud o ran eu haddysg, profiadau, barn, diwylliant, ethnigrwydd, hil, rhywedd, cenedligrwydd, oedran, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chredoau. Cynlluniwyd ein prosesau recriwtio i fod yn hygyrch a di-rwystr, gan annog pob ymgeisydd i wneud cais yn hyderus.

1. **Ffurflen gais**, y bydd angen i chi ei llenwi gan amlinellu mewn dim mwy na  gair sut 1000 ydych yn cyflawni'r meini prawf profiad a nodir yn y rhan 'yr hyn rydym yn edrych amdano' o'r fanyleb swydd a pham eich bod eisiau y swydd hon.

2. **Mae'n RHAID i chi hefyd gynnwys CV byr** yn ymwneud â'ch cais am y rôl hon (dim mwy na thair tudalen).

3. **Ffurflen cyfle cyfartal.** Ni chaiff y ffurflen hon ei defnyddio ar unrhyw gam o'r broses recriwtio a chaiff ei gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais yn syth ar ôl ei derbyn. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn parhau yn gyfrinachol a dim ond ar gyfer dibenion monitro i asesu effeithlonrwydd ein polisi cyfle cyfartal y caiff ei defnyddio.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch os gwelwch yn dda â

**Stuart Ropke, Prif Weithredwr**, ar **07590 034 071** neu e-bost stuart-ropke@chcymru.org.uk

neu

**Gerraint Oakley** drwy  jane-shorrock@chcymru.org.uk

Rhaid dychwelyd y ffurflen gais, CV a ffurflen cyfle cyfartal ar ôl eu llenwi drwy e-bost a'i marcio yn **Preifat a Chyfrinachol – Aelod o'r Bwrdd** at recruitment@chcymru.org.uk erbyn 12pm, 29 Hydref 2025.

Caiff pob ffurflen eu cadw am chwe mis yn unol ag arfer gorau i sicrhau y gallwn roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus a chefnogi'r sefydliad pe byddid yn dod â hawliad yn ei erbyn. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais ar ôl i chi ei gwblhau.

- **Caiff y rhestr fer ei llunio ar 30 Hydref 2025.**
- **Cynhelir cyfweliadau ar 14 Tachwedd 2025.** Gellir dewis cyfweliad wyneb yn wyneb neu rithiol.

Caiff argymhelliad ei wneud wedyn i'r Bwrdd llawn i gymeradwyo'r penodiad cyn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 19 Tachwedd.

Unwaith y'i cymeradwyir gan y Bwrdd, bydd aelodau yn cymeradwyo'r penodiad yn ffurfiol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Pan fydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi ei gymeradwyo, bydd ganddo hawliau pleidleisio llawn fel aelod Bwrdd a bydd ei bresenoldeb yn cyfrannu at gworwm cyfarfod.

Nodwch os gwelwch yn dda, ni fedrwch wneud cais am y swydd hon os oes aelod cyfredol o Fwrdd CHC yn dod o'ch sefydliad, sef:

Tai Aelwyd

Cymdeithas Tai Adra

Grŵp Cadarn

Clwyd Alyn

Cartrefi Cymoedd Merthyr

## Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn ymroddedig i gydraddoldeb ac mae amrywiaeth yn bwysig iddo

Gofynnir i chi nodi mai dim ond cyn cyfweliadau y caiff CVs eu hadolygu ac na chânt eu hystyried fel rhan o'r broses o lunio rhestr fer ddechreuol. Fodd bynnag, pe byddai nifer fawr o ymgeiswyr yn dod i law, gellid defnyddio CVs i gynorthwyo wrth lunio rhestr fer o ymgeiswyr i'r cam cyfweld. Caiff gwybodaeth bersonol allweddol tebyg i enw, oedran, sefydliadau addysgol ac yn y blaen eu tynnu ymlaen llaw.

Caiff gwybodaeth allweddol bersonol a gaiff ei chynnwys o fewn datganiadau personol hefyd ei thynnu cyn iddynt gael eu hystyried ar gyfer llunio'r rhestr fer ddechreuol. Byddem yn ddiolchgar pe gallai ymgeiswyr osgoi cynnwys hyn yn y lle cyntaf.

Rhoddir croeso neilltuol i geisiadau gan bobl anabl a phobl ddu a lleiafrif ethnig. Rydym yn gwarantu cyfweld â'r ymgeiswyr hyn sy'n ateb yr isafswm meini prawf ar gyfer y rôl.

Rydym eisiau i chi gael pob cyfle i arddangos eich sgiliau, gallu a photensial. Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os ydych angen unrhyw gymorth neu addasiadau rhesymol i'r broses gais.